# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

## DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

## A GYFLWYNWYD / TABLED ON 9/10/00

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2000-0077 Cais Cymru i gynnal Cwpan Ryder 2009/ Wales Ryder Cup bid 2009

10 Oct 2000 Raised by David Melding

No Subscribers

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn:

- Cefnogi'n frwd y cais gan Gymru i gynnal Cwpan Ryder yn 2009;
- Galw ar Gabinet y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill i wneud eu gorau glas i gefnogi'r cais;
- Nodi bod manteision posibl i economi Cymru yn fwy na £50 miliwn;
- Yn gofyn i Bwyllgor Cwpan Ryder gydnabod mai Gwesty'r Celtic Manor yw'r lle gorau i gynnal Cwpan Ryder 2009.

This National Assembly:
- Supports wholeheartedly the bid from Wales to host the Ryder Cup in 2009;
- Calls upon the Assembly Cabinet, the Welsh Development Agency, the Wales Tourist Board, and Welsh Local Government Association and others to do everything in their power to back the bid;
- Notes that the estimated benefits for the Welsh economy exceeds £50 million;
- Requests that the Ryder Cup Committee recognises that the Celtic Manor Resort is the best place to hold the Ryder Cup 2009.

## OPIN-2000-0076 Profion Llygaid am Ddim/Free Eye Tests

15 Sep 2000 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, Kirsty Williams

1 Subscriber:
Cynog Dafis

Mae’r Cynulliad hwn yn credu y byddai profion llygaid am ddim o fudd i bobl Cymru drwy gynorthwyo wrth atal afiechydon ar y llygaid, a chynorthwyo wrth drin pobl sy’n colli eu golwg.

Penderfynodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 Mawrth i ymestyn profion llygaid am ddim i leiafrifoedd ethnig, pobl sydd â nam ar eu clyw, pobl ag un llygad a’r rheini sydd mewn perygl o retinitis pigmentosa, oherwydd bod y grwpiau hyn mewn mwy o berygl o ddal afiechydon ar y llygaid. Ailddatganwyd hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 Mehefin.

Mae’r Cynulliad hwn yn credu y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithredu penderfyniad y Pwyllgor.

This Assembly believes that free eye tests would benefit the people of Wales by aiding in the prevention of eye disease and the treatment of visual loss.

The Health and Social Services Committee of 16th March decided to extend free eye tests to ethnic minorities, hearing impaired people, uniocular people and those at risk from retinitis pigmentosa as these groups are at higher risk of eye disease. This decision was reaffirmed in the Health and Social Services Committee on 7th June.

The Assembly believes that the Assembly Secretary for Health and Social Services should implement this decision of the Committee.

## OPIN-2000-0073 Casgliadau Celfyddydwaith Cymru/ Welsh Art Collections

13 Jul 2000 Raised by Nicholas Bourne LLB LLM

5 Subscribers:
Phil Williams
Gareth Jones
Rhodri Glyn Thomas
Janet Davies

Owen John Thomas MA

Mae’r Cynulliad hwn yn cefnogi’r angen am fwy o orielau ar gyfer casgliadau celfyddydwaith Cymru er mwyn sicrhau bod mwy o gyfle i’r cyhoedd eu gweld, a chodi eu hymwybyddiaeth o’r trysorau Cenedlaethol hyn.

This Assembly supports the need for extra gallery provision to be made available for Welsh art collections in order to increase public access to and awareness of these National treasures.

## OPIN-2000-0069 Diwrnod Cenedlaethol Owain Glyndwr / Owain Glyndwr Welsh National Day

13 Jul 2000 Raised by Helen Mary Jones

16 Subscribers:
Phil Williams
Jocelyn Davies
Val Feld
Geraint Davies
Elin Jones
Pauline Jarman
Janet Davies
Peter Black
Brian Hancock
Ron Davies
John Griffiths LLB
Rhodri Glyn Thomas
Owen John Thomas MA
Ieuan Wyn Jones
Mick Bates
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

Mae’r Cynulliad yn cyndabod cyfraniad hollbwysig y Tywysog Owain ap Gruffydd Fychan i hanes Cymru ac fel cydnabyddiaeth o’r cyfraniad hwnnw, gan gydnabod hefyd mai eleni yw 600mlwyddiant cyhoeddi Owain Glyndwˆ r yn Dywysog Cymru yng Nghlyndyfrwy, mae’r Cynulliad yn datgan, fel corff, ei fod o blaid neilltuo 16 Medi bob blwyddyn yn Ddiwrnod Owain Glyndwˆ r a’i fod yn barod i weithredu er sefydlu a chyhoeddi’r diwrnod hwnnw yn Ddiwrnod Cenedlaethol Swyddogol Cymru erbyn 16 Medi.

The Assembly recognises the all important contribution made by Prince Owain ap Gruffydd Fychan to Welsh history and as recognition of that contribution along with recognition of the fact that this year is the 600th anniversary of the date that Owain Glyndwr was proclaimed Prince of Wales at Glyndyfrdwy, the Assembly declares, as a body, that it is in favour of

designating 16th September annually as Dydd Owain Glyndwr and that it is prepared to act towards establishing and proclaiming the day an Official Welsh National Day by 16th September.

## OPIN-2000-0063 Ymgyrch yn erbyn Argae llisu/ Campaign against the llisu Dam

15 Jun 2000 Raised by Cynog Dafis, Ron Davies, Glyn Davies, Michael German OBE

17 Subscribers:
Ieuan Wyn Jones
Jocelyn Davies
Christine Humphreys
Phil Williams
Rhodri Glyn Thomas
Gareth Jones
Elin Jones
Kirsty Williams
Richard Edwards
Jenny Randerson
Nicholas Bourne LLB LLM
Ann Jones
Janet Ryder
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
William Graham JP
Mick Bates
Owen John Thomas MA

Yng ngoleuni ei ymrwymiad i egwyddorion sylfaenol amddiffyn hawliau dynol, arddel amrywiaeth ddiwyllianol a gwarchod yr amgylchfyd, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn mynegi ei wrthwynebiad i godi Argae llisu yn rhanbarth Gwrdaidd Twrci, ac yn galw ar Lywodraeth Prydain i wrthod hybu'r cynllun adeiladu.

In light of its commitment to the fundamental principles of defending human rights, of recognising cultural diversity and of protecting the environment, this National Assembly declares its opposition to the building of the llisu Dam in the Kurdish region of Turkey, and calls upon the UK Government to refuse to support the construction project.